

Nodyn atodol yr arolygydd: Addysg cyfrwng Cymraeg

Mater 1: Paratoad, gweledigaeth a nodau'r Cynllun

Mater 2: Strategaeth, cyflenwad a seilwaith y Cynllun

Diben a chyfyngiadau'r nodyn hwn

- Mae'r nodyn hwn yn gosod allan f'arsylwadau cychwynnol ar ariannu a darparu addysg cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun:
 - Mater 1.1: Gofynion paratoi a threfniadol
 - Mater 2.2: Cyflenwi a seilwaith, a
 - Mater 2.3: Goblygiadau cynllunio (polisi SW9).
- Mae'r nodyn yn ymateb i ddatganiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) a'i nod yw hwyluso trafodaethau â'r partion hynny yng ngwrandawiadau 1 a/neu 2. Nid wyf yn ceisio cael unrhyw ymatebion ysgrifenedig ac eithrio oddi wrth CBSMT, fel y dynodwyd yn y nodyn hwn.
- Fy sylwadau cychwynnol i yn unig yw'r arsylwadau yn y nodyn hwn. Maent yn cael eu cynnig yn ddiragfarn i'r archwiliad a f'asesiad o gadernid neu gydymffurfio trefniadol.

Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

- Ym mis Mai 2018 cafodd cyfrifoldeb am Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) ei basio gan Lywodraeth Cymru. Ers hynny mae Llywodraeth DU wedi gwneud diwygiadau i Reoliadau CIL a fydd yn dod i rym fis Medi, ond yn Lloegr yn unig. Felly, fy nealltwriaeth gyfredol yw, ar gyfer y dyfodol agos, bydd y rheoliadau sy'n gymwys i Gymru yn parhau'n Rheoliadau CIL 2010 a gafodd eu diwygio'n fwyaf diweddar yn 2018.
- Er bod CIL bellach yn fater a ddatganolwyd, yn absenoldeb canllawiau eraill, mae gan Ganllaw Ymarfer Cynllunio Llywodraeth DU (PPG) beth perthnasedd i Gymru i'r perwyl ei fod yn darparu cyngor mewn perthynas â chais Rheoliadau CIL 2010. Rwyf felly wedi talu sylw ato.

Cyfyngiadau ar sicrhau cyfraniadau adran 106

- Mae Rheoliad CIL 123(2) yn datgan:

"Mae'n bosibl nad yw goblygiad cynllunio yn cynnwys rheswm dros ganiatáu caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i'r graddau fod yr oblygiad yn darparu ar gyfer ariannu neu ddarparu seilwaith perthnasol."

- Mae PPG (cyfeirnod ID 25-097-20190315) yn dehongli hyn fel a ganlyn:

"Pan fo rheoliad rhestr 123 yn cynnwys teip generig o seilwaith (megis 'addysg' neu 'drafnidiaeth'), ni ddylid ceisio cael cyfraniadau adran 106 ar unrhyw brosiect penodol yn y categori hwnnw. Dylid ceisio cael cyfraniadau penodol i'r safle yn unig ble y gellir cyfiawnhau hyn gyda chyfeiriad at y dystiolaeth danategol ar gynllunio seilwaith a oedd ar gael i'r cyhoedd yn yr atodlen archwiliad codi tâl."

8. Yn yr achos hwn, rwyf yn nodi fod 'Darpariaeth Addysg' yn cael ei chynnwys fel eitem ar reoliad rhestr 123 CBSMT¹. Felly, mae gallu CBSMT i gasglu cyfraniadau s106 tuag at ddarpariaeth addysg wedi ei gyfyngu'n sylweddol. Tra fy mod yn barod i glywed tystiolaeth i'r gwrthwyneb, fe ymddengys i mi, fod diwygio geiriad polisi SW9 ei hun i geisio cyfraniadau s106 tuag at ddarpariaeth addysg, hyd yn oed i brosiect addysg benodol, yn rhedeg risg uchel o beidio â chael ei gyflawni, ac o ganlyniad, nad yw'n gadarn.

Effaith y Cynllun ar y defnydd o'r iaith Gymraeg

9. Er gwaetha'r uchod, mae adran 62(6A) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan fod yn rhaid i Werthusiad Cynaliadwyedd (GC) "gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ynghylch y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal yr awdurdod."
10. Mae fframwaith y GC yn cynnwys nod "i hwyluso'r gwasanaethau a hwylusid sy'n cefnogi diwylliant ac iaith Gymraeg benodol leol". Fodd bynnag, tra bo Adroddiad GC yn dod i'r casgliad y gallai'r Cynllun arwain at "botensial am ragor o ddisgyblion" i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a leolir yn CBSMT, ac yn nodi'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn syndod o dderbyn y byddai cynnydd mewn disgyblion mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn CBSMT yn debygol o arwain at ganlyniad o gynnydd o ran disgyblion sy'n mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn lleol. Mae hon yn effaith arfaethedig o'r Cynllun y byddwn yn disgwyl iddi gael ei hystyried yn y GC.

Gweithredu gofynnol oddi wrth CBSMT

11. Yng ngoleuni'r arsylwadau uchod rwyf yn gofyn bod CBSMT yn cyflwyno'r canlynol i'r archwiliad:
- Rhestr 123 Rheoliad CIL cyfredol, a
 - Tystiolaeth seilwaith a oedd yn wreiddiol yn tanategu Atodlen codi tâl CIL.
12. Gofynnaf hefyd fod CBSMT yn ystyried ymlaen llaw cyn gwrandawiadau 1 a 2:
- I ddechrau, a aethpwyd i'r afael ag addysg cyfrwng Cymraeg yn y GC ac a ddylai Adroddiad y GC gael ei ddiwygio i ddynodi unrhyw effeithiau i'r perwyl hwn.
 - Yn ail, gyda sylw at y GC, Rheoliadau CIL, tystiolaeth seilwaith CIL ac unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dyfodol i restr 123 Rheoliad CIL CBSMT, a ddylai cyfiawnhad ychwanegol rhesymedig sy'n berthnasol i faen prawf 4 polisi SW 9, gael ei ychwanegu at y Cynllun i wneud y sefyllfa'n eglur o ran addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn benodol yr amgylchiadau pan fyddai cyfraniadau angenrheidiol tuag at addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei geisio a'i sicrhau yn y dyfodol, yn amodol at gydymffurfio â Rheoliadau CIL neu unrhyw reoliadau olynnydd.
 - Yn drydydd, a yw unrhyw ddiwygiadau i Atodlen y Seilwaith yn angenrheidiol.
13. Os, wedi myfyrio, bod CBSMT yn ystyried fod newidiadau yn angenrheidiol i'r GC a/neu'r Cynllun, dylid crynhoi'r rhain mewn datganiad ysgrifenedig atodol i'w gyflwyno erbyn diwedd busnes ddydd Gwener 21 Mehefin. Neu, os yw'n penderfynu y bydd y dystiolaeth lafar a ddarparwyd yng ngwrandawiadau 1 a 2 yn ddigon, rwyf yn fodlon mynd ymlaen ar y sail honno.
14. Gyda bod adnoddau'n caniatáu hynny, byddwn yn annog CBSMT a CBSRhCT i ymgysylltu â'i gilydd o flaen llaw cyn y gwrandawiadau i sefydlu meysydd o dir cyffredin ac anghyffredin mewn perthynas â'r materion a godwyd yn y nodyn hwn.

Paul Selby

¹ Para 2.12 o'r Atodlen Seilwaith [ED007a]

13 Mehefin 2019